



Asiantaeth Cymorth  
Cyfreithiol


## **Cynllun Busnes 2014/15**

Cyflenwi cymorth cyfreithiol yn effeithlon ac yn effeithiol yn rhan o'r system gyfiawnder

# Cynnwys

<b>Cyflwyniad gan y Gweinidog Cymorth Cyfreithiol, Shailesh Vara MP</b>	1
<b>Rhagair gan Brif Weithredwr yr ACC, Matthew Coats</b>	2
<b>Strategaeth Ddiwygio'r Weinyddiaeth Cyfiawnder</b>	4

## **Adran 1: Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC): Pwy Ydym Ni**

Mae'r adran hon yn ymdrin â'r sefydliad rydym wedi'i adeiladu ac yn cynnwys sylwadau gan ein staff am ein blwyddyn gyntaf fel Asiantaeth Weithredol.

<b>1.1</b>	Ein pwrpas, ein gwerthoedd a'n diwylliant	7
<b>1.2</b>	Ein sefydliad, ein pobl a'n darparwyr	10
<b>1.3</b>	Ein blwyddyn gyntaf fel Asiantaeth Weithredol	15
<b>1.4</b>	Ein hamcanion strategol	21

## **Adran 2: Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol: Blaenoriaethau Busnes**

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd o'n blaenau, ein dyfodol a'n hymdrech i ddal i wneud yr ACC yn lle gwell i weithio.

<b>2.1</b>	Ein nodau ar gyfer y flwyddyn sydd o'n blaenau	23
<b>2.2</b>	Gwneud yr ACC yn lle gwell i weithio	29
<b>2.3</b>	Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol	33
<b>2.4</b>	Byw o fewn ein modd a rheoli ein risgiau	36

## **Atodiad:**

<b>A</b>	Ein Trefniadau Tryloywder	39
<b>B</b>	Llywodraethu	40
<b>C</b>	Ein Trefniadau yng Nghymru	42

# Cyflwyniad gan y Gweinidog Cymorth Cyfreithiol, Shailesh Vara AS



**Mae'n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Busnes 2014/15 ar gyfer yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC). Roedd ffurfio'r ACC y llynedd yn garreg filltir bwysig yn y broses o gyflawni uchelgais y Llywodraeth o ddiwygio a gwella rhan sylfaenol o'n system gyfreithiol. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd yr Asiantaeth yn dal i adeiladu ar y cynnydd hwn yn ystod y deuddeng mis nesaf.**

Mae cymorth cyfreithiol yn rhan annatod o'n system gyfiawnder ac yn darparu cymorth i'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas. O ganlyniad, mae'n bwysicach heddiw nag erioed ein bod yn sicrhau bod cymorth cyfreithiol yn parhau'n gynaliadwy a'i fod yn canolbwyntio ar yr achosion lle mae ei angen fwyaf.

Wrth wneud hyn rhaid i ni gofio bod cost ein system cymorth cyfreithiol wedi dyblu mewn termau real yn y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Yn ychwanegol at hyn, mae sefyllfa ariannol Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi golygu bod gan bob Adran ran i'w chwarae yn y broses o ganfod arbedion er mwyn i ni allu byw o fewn ein modd. Dyma pam rydym wedi cyflwyno diwygiadau, drwy Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012, a hefyd drwy'r rhaglen Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol, y disgwyllir iddi arbed £215m yn ychwanegol erbyn

2018/19. Wrth wneud y cwtogiadau hyn rwy'n ceisio sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y proffesiwn cyfreithiol yn yr amgylchedd anodd y mae'n ei wynebu.

Er gwaetha'r hinsawdd ariannol anodd, rwy'n falch o weld bod yr Asiantaeth yn ceisio gwella'i dulliau gweithio er mwyn sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd ac, ar adeg pan mae pwysau mawr ar arian cyhoeddus, ei bod yn cydnabod y gall hithau ganfod arbedion. Mae'r ACC hefyd wedi datblygu gweithlu ymroddedig, llawn cymhellant ac wedi galluogi dulliau gweithio digidol i foderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio gyda'n partneriaid.

Mae'r Asiantaeth hefyd wedi newid rhywfaint ar ei dulliau gweithio yn unol â'r diwygiadau yn y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi, a thrwy weithio gyda'r Weinyddiaeth mae wedi ymwneud â'r proffesiwn cyfreithiol mewn modd adeiladol a chyson. Byddaf yn gweithio gyda'r Asiantaeth a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder er mwyn sicrhau ein bod yn dal i wella'r modd y mae cymorth cyfreithiol yn cael ei weinyddu yng Nghymru a Lloegr er mwyn darparu gwell gwasanaeth i bawb sy'n ymwneud â'r system gymorth cyfreithiol.

Rwy'n parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod y Llywodraeth a'r proffesiwn cyfreithiol yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn cael system cymorth cyfreithiol sy'n diogelu'r rhai sydd ei hangen fwyaf ac yn ennyn hyder y trethdalwyr sy'n ei hariannu.

# Rhagair gan Brif Weithredwr yr ACC, Matthew Coats



Ar ddechrau ail flwyddyn yr ACC mae'n bleser gennyf gyflwyno'n cynlluniau ar gyfer y deuddeng mis nesaf. Wrth edrych yn ôl, rwy'n hyderus ein bod wedi dechrau'n dda. Mae ein blwyddyn gyntaf fel Asiantaeth wedi bod yn flwyddyn o drawsnewid, ond mae'n perfformiad wedi parhau'n gryf. Mae ein staff wedi gweithio'n galed gyda darparwyr a'n partneriaid yn y system gyfiawnder er mwyn lleihau ein hamseroedd prosesu, gwneud arbedion effeithlonrwydd a chadw'r safonau uchaf wrth reoli arian cyhoeddus. Nid yw hyn wedi bod yn hawdd, ond gyda'n gilydd rydym wedi cyflawni ein hymrwymiaadau.

Yn ystod y deuddeng mis diwethaf rydym wedi sefydlu strwythur llywodraethu newydd, integreiddio'n staff yn y Gwasanaeth Sifil, cyrraedd camau olaf y broses o weithredu system ddigidol ar gyfer ein gwaith achos sifil, cyflwyno newidiadau o ganlyniad i Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012, a gweithio gyda chydweithwyr yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder i ystyried

trefniadau gweithredol ar gyfer y cynigion i Drawsnewid Cymorth Cyfreithiol. Yr un pryd rydym wedi gweithio'n galed er mwyn sicrhau bod ein busnes craidd – gweinyddu cymorth cyfreithiol – wedi cael ei wneud yn effeithlon ac yn effeithiol. O edrych yn ôl, gallwn weld ein bod wedi gosod sylfeini ar gyfer sefydliad llwyddiannus. Mae ein gwasanaethau craidd yn perfformio'n dda ac yn rhagori'n gyson ar y targedau ar gyfer prosesu ceisiadau a biliau, ac am y tro cyntaf er 2007/08 rhoddwyd ein cyfrifon ar gyfer 2012/13 gerbron y Senedd mewn pryd â barn archwilio ddiamed gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Ymdrechodd pob rhan o'r sefydliad yn galed i gyrraedd y nod hwn ac mae'n garreg filltir bwysig yn y broses o drawsnewid ein gallu i reoli arian.

Mae'n glod i'n staff hefyd ein bod wedi darparu gwasanaeth o safon gyson uchel i ddarparwyr yn ystod y cyfnod hwn o newid a phontio. Gwelwyd enghraifft o hyn wrth iddynt ymateb i'r holl geisiadau a dderbyniasom yn ystod yr ychydig ddiwrnodau cyn i newidiadau Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012 ddod i rym ym mis Ebrill 2013. Gweithiodd staff ym mhob rhan o'r Asiantaeth gyda'i gilydd i'n galluogi i ddal i fodloni ein safonau gwasanaeth. Dangosodd hyn ddau beth i mi; mai ein staff yw'r grym sy'n galluogi'r ACC i gyflawni, a bod cynlluniau lleol yr un mor bwysig â newid ar raddfa fawr er mwyn ein helpu i sicrhau'r arbedion pellach sydd eu hangen nawr.

Dyma pam ein bod wedi canolbwyntio yn y cynllun hwn ar wneud yr ACC yn lle gwell fyth i weithio. Bydd hyn yn cynnwys cynlluniau o bob math, yn amrywio o gefnogi ein staff i wneud y defnydd gorau o'u pum niwrnod o hyfforddiant er mwyn gwella'r amgylchedd ffisegol y maent yn gweithio ynddo.

Y flwyddyn nesaf bydd yr ACC yn dal i weithio tuag at amcan y Weinyddiaeth Cyfiawnder o "system gyfiawnder sy'n fwy effeithiol, yn llai costus, ac yn fwy ymatebol i'r cyhoedd". Byddwn yn dal i weithredu ein tair prif flaenoriaeth ar gyfer y busnes ac yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'n gwasanaethau ar gael ar-lein drwy ddarparu ein rhaglenni newid. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant 2013/14 ac yn dal i wella'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu.

Yr unig ffordd o wneud hyn yw drwy weithio mewn partneriaeth â darparwyr cymorth cyfreithiol. Efallai na fyddwn yn gallu cytuno ar bopeth bob amser ond credaf mai dim ond drwy weithio gyda'n gilydd y gallwn ddatblygu'r gwasanaeth cymorth cyfreithiol costeffeithiol o safon y mae'r trethdalwr yn ei haeddu. Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn ceisio cael mewnbwn gan ddarparwyr ar y gwahanol newidiadau gweithredol a fydd yn mynd â llawer o'u rhyngweithiadau gyda ni ar-lein a byddwn yn gweithio gyda hwy i wneud y broses drawsnewid mor hwylus ag sy'n bosib.

Rwy'n falch o bopeth rydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn. Bydd 2014/15 yn flwyddyn anodd ond os bydd ein staff, ein darparwyr, a'n partneriaid yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithio gyda'i gilydd rwy'n ffyddiog y gallwn ailadrodd ac adeiladu ar lwyddiant y llynedd.



# Strategaeth Ddiwygio'r Weinyddiaeth Cyfiawnder

Fel un o Asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder mae cyfeiriad strategol yr ACC yn cael ei ddiffinio gan weledigaeth strategol y Weinyddiaeth ar gyfer diwygio, sef creu system gyfiawnder sy'n fwy effeithiol, yn llai costus ac yn fwy ymatebol i'r cyhoedd.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gwneud newidiadau i'r pethau y mae'n eu gwneud ac i'r ffordd y mae'n eu gwneud. Mae rhan bresennol ei rhaglen ddiwygio'n canolbwyntio ar bum blaenoriaeth:

## Trawsnewid adsefydlu

Lleihau cyfraddau aildroseddu a gwella gwerth i'r trethdalwr drwy agor gwasanaethau adsefydlu ar gyfer troseddwy'r i farchnad fwy amrywiol o ddarparwyr; ymestyn ein dulliau adsefydlu ar gyfer troseddwy'r sy'n cael eu dedfrydu am hyd at 12 mis; a chyflwyno system talu yn ôl canlyniadau.

## System garcharu fwy effeithiol a chosteffeithlon

Diwygio'r system garchardai er mwyn lleihau costau ar draws yr ystâd a gwneud i bob mymryn o arian sydd yn y pwrs cyhoeddus gyfri. Sicrhau bod y fframwaith dedfrydu'n gweithio mor effeithlon ac effeithiol ag sy'n bosib, er mwyn rhoi cosb briodol i droseddwy'r, heb roi diogelwch y cyhoedd yn y fantol.

## Trawsnewid y system ar gyfer cadw pobl ifanc yn y ddalfa

Diwygio'r system ar gyfer cadw pobl ifanc yn y ddalfa er mwyn creu system fwy effeithlon sy'n sicrhau bod pobl ifanc yn cael cosb briodol, a hefyd yn cael y gefnogaeth a'r addysg angenrheidiol er mwyn eu cadw rhag troseddu.

## Trawsnewid llysoedd, tribiwnlysoedd a'r system cyfiawnder troseddol

Dal i wella'r ffordd mae ein llysoedd yn cael eu rhedeg, gan sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli gystal ag sy'n bosib, a bod y system yn rhoi dioddefwyr yn gyntaf.

## Trawsnewid cymorth cyfreithiol

Diwygio'r system cymorth cyfreithiol er mwyn lleihau'r gost i'r trethdalwr a sicrhau bod y system yn ennyn hyder y cyhoedd.

## **Trawsnewid cymorth cyfreithiol a chyfraniad yr ACC tuag at y weledigaeth hon**

Mae'r rhaglen Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol yn dal i chwarae rhan bwysig yn agenda ddiwygio'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Bydd Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol yn darparu system cymorth cyfreithiol ddiwygiedig a fydd yn costio llai i'r trethdalwr ac a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd. Gan weithio gyda chydweithwyr polisi'r Weinyddiaeth Cyfiawnder rydym eisoes wedi dechrau cyflwyno diwygiadau i wasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol a sifil a disgwylir iddynt sicrhau tua £215m yn rhagor o arbedion erbyn 2018/19. Rydym wedi gweithredu dwy ran gyntaf y diwygiadau hyn gan gynnwys newidiadau i ffioedd cymorth cyfreithiol achosion sifil a theulu, cyflwyno trothwy cymhwyster a fydd yn atal y diffynyddion mwyaf cyfoethog rhag cael cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron, a chyfyngu cymorth cyfreithiol i gyfraith carchardai.

Ar 27 Chwefror 2014, cyhoeddodd y Llywodraeth ei phenderfyniadau ynglŷn â chaffael gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn y dyfodol ac ar 27 Mawrth cyhoeddodd gytundeb i ddarparu rhagor o gymorth i gyfreithwyr cymorth cyfreithiol troseddol wrth iddynt baratoi ar gyfer arbedion cymorth cyfreithiol ac ailstrwythuro'r farchnad. Rydym felly'n symud ymlaen i weithredu trydedd ran y rhaglen drawsnewid. Wrth wneud hyn, byddwn yn sicrhau bod darparwyr yn cael eu cefnogi yn ystod pob cam o'r broses weithredu â'r cyfathrebu a'r hyfforddiant priodol.

Hyd yn oed ar ôl cyflawni'r diwygiadau mawr hyn, bydd rhagor o waith i'w wneud eto er mwyn gwneud arbedion effeithlonrwydd yn ein trefniadau gweinyddol a gweithio ar y cyd â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i gyflawni ei gweledigaeth strategol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cymorth cyfreithiol, a'r system gyfiawnder yn ehangach, yn fwy effeithiol, yn llai costus, ac yn fwy ymatebol i'r cyhoedd. Nodir ein blaenoriaethau ar dudalennau 23 a 24 o'r Cynllun Busnes hwn.

# Adran 1: Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC): Pwy dym Ni

Mae'r adran hon yn ymdrin â'r sefydliad rydym wedi'i adeiladu ac yn cynnwys sylwadau gan ein staff am ein blwyddyn gyntaf fel Asiantaeth Weithredol.



# 1.1 Ein pwrpas, ein gwerthoedd a'n diwylliant

**Ein pwrpas:** Cyflenwi cymorth cyfreithiol yn effeithlon ac yn effeithiol yn rhan o'r system gyfiawnder.

Mae'r ACC yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr cyfreithiol a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ehangach er mwyn cyflawni'r pwrpas hwn. Mae'n gwaith yn hanfodol i weithrediad teg, effeithlon ac effeithiol y systemau cyfiawnder sifil, teulu a throeddol. Mae'r pwrpas hwn yn llywio'n gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau felly rydym yn sicrhau bod y sefydliad yn dal i ddatblygu mewn ffordd sy'n gwella'n gallu i gyflawni'r swyddogaeth sylfaenol hon. Mae ymgysylltiad ac ymroddiad ein staff yn hollbwysig er mwyn i'r ACC allu cyflawni ein pwrpas. Adlewyrchir hyn yn ein cynlluniau i wneud yr ACC yn lle gwell i weithio yn 2014/15, fel y nodwyd ar dudalennau 29 a 30. Mae ein pwrpas yn seiliedig ar dair amcan strategol sy'n gysylltiedig â'n blaenoriaethau busnes, sef:

- **Amcan Strategol 1:** Gwella gwaith achos i leihau cost, gwella rheolaeth a rhoi gwell gwasanaeth i gwsmeriaid
- **Amcan Strategol 2:** Gwella gallu sefydliadol i ateb yr heriau o'n blaenau, gan gynnwys datblygu ein pobl ac ymgysylltu â hwy
- **Amcan Strategol 3:** Magu a chynnal partneriaethau cryf i sicrhau darpariaeth o ansawdd a chyfrannu'n llawn at nodau ehangach cyfiawnder a'r Llywodraeth.

Ceir rhagor o fanylion am ein hamcanion strategol ar dudalen 21.

**Ein gwerthoedd:** Fel gweision sifil rydym yn arddangos gwerthoedd y Cod Gwasanaeth Sifil, sef:

## Unplygrwydd:

gosod rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus uwchlaw eich buddiannau personol eich hun

## Gonestrwydd:

bod yn onest ac yn ddiwyll

## Gwrthrychedd:

seilio eich cyngor a'ch penderfyniadau ar ddadansoddiad trwyadl o'r dystiolaeth

## Didueddrwydd:

gweithredu yn unol â rhinweddau'r achos yn unig a gwasanaethu llywodraethau o wahanol argyhoeddiadau gwleidyddol cystal â'i gilydd

**Ein diwylliant:** Mae ein diwylliant yn diffinio'r ffordd y byddwn yn meddwl ac yn gweithredu fel sefydliad; y ffordd y byddwn yn ymddwyn tuag at ein gilydd ac at ein partneriaid; a'r ffordd y byddwn yn gweithio. Mae arnom eisiau diwylliant lle byddwn:

**Yn ymfalchïo mewn gwneud penderfyniadau da ac yn dal i gyflawni canlyniadau rhagorol**

**Yn mabwysiadu dull cadarnhaol sy'n edrych tuag allan**

**Yn gwerthfawrogi diben cyffredin, gwaith tîm a chydweithio**

**Yn coleddu amrywiaeth ac yn sicrhau tegwch yn ein gweithle**

### **Ein hannibyniaeth:** Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol

Rôl a grëwyd gan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012 yw swydd y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol ac mae'n canolbwyntio ar wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau unigol am gymorth cyfreithiol. Mae'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am achosion unigol ar ei ben ei hun ac mae hynny'n sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y maes hwn yn annibynnol ar y Llywodraeth.

Cefnogir y Cyfarwyddwr gan Fwrdd yr ACC er mwyn sicrhau bod arferion cadarn wedi'u sefydlu a fydd yn cynnal annibyniaeth y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â rhoi cymorth cyfreithiol. Mae Prif Weithredwr yr ACC, Matthew Coats, wedi bod yn cyflawni'r rôl hon ers ei sefydlu ar 1 Ebrill. Mae'n adrodd i'r Senedd yn flynyddol ynglŷn â sut y mae wedi cyflawni'r ddyletswydd hon (gweler Atodiad A – Ein Trefniadau Tryloywder).

## Ein rôl wrth Ddiwygio'r Gwasanaeth Sifil

Ochr yn ochr â gweledigaeth y Weinyddiaeth Cyfiawnder mae gan yr ACC rôl i'w chwarae yn y broses o Ddiwygio'r Gwasanaeth Sifil a'i phedair prif thema. Bydd ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn gwneud cyfraniad sylweddol ym mhob un o'r meysydd hyn:

Mwy medrus	Mwy digidol	Mwy unedig, agored ac atebol	Gwneud Polisiâu Gwell
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu ein pobl yw un o'n tri amcan strategol ac mae'n gonglfaen i'n hymrwymiad i wneud yr ACC yn lle gwell i weithio.</li> <li>• Byddwn yn meithrin gallu drwy ddysgu a datblygu parhaus, cynyddu ein hymwybyddiaeth fasnachol a gwelliant parhaus yn ein gweithgareddau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae symud tuag at ryngweithio ar-lein â darparwyr a darparu gwasanaethau ar-lein yn flaenoriaeth i'r ACC.</li> <li>• Mae hyn yn cynnwys rhoi'r System Rheoli Cleientiaid a Chostau (CCMS) ar waith yn raddol fel bod modd prosesu biliau a cheisiadau sifil ar-lein a gweithredu'r rhaglen Newid Troseddau sydd wedi dechrau â chynllun peilot llwyddiannus ar gyfer diwygiadau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rydym wedi dechrau gweithio mewn cysylltiad agos â'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn atal twyll.</li> <li>• Byddwn yn rhannu data â'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau er mwyn dilysu perchnogaeth cerbydau i gefnogi gweithgaredd gorfodi ar gyfer ein cynllun Prawf Modd Llys y Goron.</li> <li>• Rydym wedi ymrwmo i gyflwyno adroddiadau tryloyw am ein perfformiad drwy gydol y flwyddyn.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n gyfrifol am bolisi cymorth cyfreithiol. Er hyn, bydd yr ACC yn darparu gwybodaeth yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd wrth ddarparu a datblygu gwasanaethau a fydd yn hollbwysig er mwyn gweithredu diwygiadau Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol.</li> </ul>
<p><b>Rhagor o fanylion ar dudalennau 29 a 30</b></p>	<p><b>Rhagor o fanylion ar dudalen 35</b></p>	<p><b>Rhagor o fanylion ar dudalennau 35 a 39</b></p>	<p><b>Rhagor o fanylion ar dudalen 23</b></p>


# 1.2 Ein sefydliad, ein pobl a'n darparwyr

## Ein sefydliad

Mae'r ACC yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr ac mae ei phencadlys wedi'i leoli ar yr un safle â phencadlys y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn Llundain.

Rydym yn cadw presenoldeb rheoli contractau rhanbarthol er mwyn bod yn ffisegol agos at ein darparwyr ac at bartneriaid eraill yn y system gyfiawnder. Cyflawnir y swyddogaeth hon gan ychydig dros 100 o reolwyr contractau. Mae ein swyddogaeth rheoli achosion, sy'n cael ei chyflawni gan tua 850 o staff, yn cael ei harwain o dri phrif leoliad lle gallwn ddarparu gwasanaeth

electronig costeffeithiol i'n darparwyr: De Glannau Tyne ar gyfer achosion sifil a theulu, Nottingham ar gyfer achosion troseddol a Llundain ar gyfer achosion eithriadol ac achosion cost uchel. Mae gwaith rheoli achosion a swyddogaethau eraill hefyd yn cael eu cyflawni yn Birmingham, Brighton, Bryste, Caergrawnt, Caerdydd, Caer, Leeds, Lerpwl, Manceinion a Reading. Mae'r Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd yn unrhyw ran o Gymru a Lloegr. Mae ein strwythur sefydliadol a'r gweithgareddau craidd cysylltiedig fel a ganlyn:



## Gwasanaethau a Rennir

Fel rhan o grŵp ehangach y Weinyddiaeth Cyfiawnder rydym yn defnyddio gwasanaeth adnoddau dynol, gwasanaeth cyfreithiol, gwasanaethau a rennir, cyfathrebu digidol, swyddfa'r wasg, gwasanaeth caffael a gwasanaeth ystadau canolog y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau sy'n cefnogi'r Asiantaeth a'i staff. Rydym wedi cydweithio y llynedd i ddatblygu'r gwasanaethau rydym yn eu cael ym mhob un o'r meysydd hyn a sicrhau eu bod yn addas i ofynion y busnes. Drwy bartneru â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i ddarparu'r swyddogaethau canolog hyn rydym wedi lleihau costau ac wedi sicrhau bod yr ACC yn cael cefnogaeth o safon ym mhob maes.

## Ein Pobl

Ers sefydlu'r Asiantaeth ym mis Ebrill 2013 rydym wedi adeiladu ar y gwaith caled er mwyn sicrhau bod ein staff yn hyddysg, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn ymroddedig i'w gwaith. Byddwn yn dal i ganolbwyntio ar hyn yn 2014/15 yn ein cynlluniau er mwyn dal i wneud yr ACC yn lle gwell i weithio, fel y nodir ar dudalennau 29 a 30. Yn ystod y deuddeng mis diwethaf mae ein gwaith yn y maes hwn wedi bod yn seiliedig ar dair thema: gweithredu ar sail canlyniadau ein harolwg cenedlaethol o ymgysylltiad staff; datblygu ein talentau; a sicrhau bod gan yr Asiantaeth ddiwylliant cynhwysol a gweithlu cynrychioladol:

**Ymgysylltiad:** Yn 2013/14 datblygasom gynllun gweithredu cenedlaethol cynhwysfawr, wedi'i greu mewn

partneriaeth â'n staff, mewn ymateb i adborth o'r arolwg staff cenedlaethol. Mae'r camau sydd wedi'u rhoi ar waith yn barod yn cynnwys cyflwyno a rhoi cyhoeddusrwydd i bwrpas cyffredin ar gyfer y sefydliad, hyrwyddo arferion da ar gyfer rheoli perfformiad staff, cyflwyno Byrddau Gwybodaeth Tîm â sesiynau briffio staff rheolaidd, a rhoi cyhoeddusrwydd i gyfleoedd datblygu amrywiol sydd ar gael i weision sifil.

Cefnogir y cynllun cenedlaethol gan gynlluniau gweithredu lleol sy'n mynd i'r afael â materion lleol a hefyd drwy sicrhau bod ein tîm arwain yn amlwg ac o fewn cyrraedd rhwydd i'r holl staff: yr Uwch Dîm Arwain yn ymweld â phob swyddfa ranbarthol ddwywaith y flwyddyn; y Prif Weithredwr yn cyfathrebu'n rheolaidd bob wythnos â'r holl staff gan ofyn am adborth am faterion hanfodol; cyfarfodydd rheolwyr ddwywaith y flwyddyn; a gwe-sgyrsiau mewnwyd ar raglenni gwaith amrywiol.

Yn 2013 gwnaethom hefyd gydnabod a dathlu llwyddiannau timau ac unigolion yn yr ACC drwy ein seremoni Gwobrau Staff Cenedlaethol. Rhoddwyd gwobrau mewn wyth categori, ac roedd yr enillwyr yn cynnwys y tîm a oedd wedi gweithio i fynd i'r afael â'r holl geisiadau a gafwyd cyn gweithredu Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012 a'r tîm a fu'n gweithio er mwyn lleihau'r gyfradd gwallau ac a helpodd i wneud ein cyfrifon yn ddiamod ar gyfer 12/13. Gwobrwywyd unigolion am eu gwaith ym maes amrywiaeth, am fod yn arweinwyr sy'n ysbrydoli pobl eraill ac am waith a

wnaethpwyd nid yn unig yn yr ACC ond hefyd yn y gymuned.

Yn 2013 cododd ein sgôr ymgysylltiad staff dri phwynt canran gan gyrraedd 60%, dau bwynt canran yn uwch na chyfartaledd y gwasanaeth sifil (58%), a'n gosod yn safle 33 ar y rhestr o 98 o sefydliadau gwasanaeth sifil (i fyny o safle 50 yn 2012). Mae rhagor o welliannau i'w gwneud eto ond rydym wedi gosod sylfaen gadarn er mwyn gwneud yr ACC yn lle gwell fyth i weithio ynddo yn 2014/15.

**Talentau:** Mae ein profiad yn ystod y 12 mis diwethaf wedi dal i ddangos y rôl hollbwysig a chwaraeir gan ein staff er mwyn cyflawni ein pwrpas, ac mae Cynllun Galluoedd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn sicrhau bod gennym y gallu sefydliadol i gyflawni'r heriau sydd o'n blaenau. Byddwn yn dal i sicrhau bod ein pobl yn meddu ar yr wybodaeth briodol, ac yn cael eu cefnogi a'u datblygu i gyflawni pwrpas ac amcanion yr ACC.

Mae ein gweithgareddau rheoli talentau yn galluogi'r ACC i nodi a datblygu staff sydd â'r potensial i symud ymlaen i lefelau uwch gan sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'u talentau i gyfrannu tuag at amcanion yr ACC. Yn 2013/14 cynaliasom adolygiad o dalentau staff ym mandiau A a B a'n helpodd i asesu gallu'r sefydliad a'n hanghenion datblygu arweiniad.

Eleni hefyd rydym wedi sicrhau bod Dysgu Gwasanaeth Sifil yn cael ei ddefnyddio fel offeryn dysgu a datblygu ar-lein ar gyfer holl staff yr ACC, a rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r ystod o gyfleoedd datblygu ar-lein y mae'n eu cynnig. Anogir staff i ddefnyddio'r pum diwrnod dysgu y maent yn eu cael bob blwyddyn a byddwn yn dal i hyrwyddo ffyrdd amrywiol o ddefnyddio'r rhain {astudiaeth achos #1}.

### Astudiaeth Achos #1: Cydgysylltwyr Dysgu a Datblygu

Mae dau aelod o'r Tîm Comisiynu Canolog yn gweithredu fel cydgysylltwyr Dysgu a Datblygu i ganolbwyntio ar ddysgu a datblygu'r tîm. Yn ystod 13/14, cynhaliodd y cydgysylltwyr ddadansoddiad o anghenion dysgu gan nodi anghenion datblygu unigol gan gynnwys datblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â Chynllun Galluoedd y Gwasanaeth Sifil. Defnyddiwyd canlyniadau'r dadansoddiad i greu cynlluniau gweithredu dysgu unigol a defnyddiwyd y rhain yn eu tro fel sail i sgysiau gyda rheolwyr llinell fel rhan o'r broses o Werthuso a Rheoli Perfformiad. Roedd canlyniadau'r dadansoddiad hefyd yn cyfrannu tuag at gynllun dysgu a datblygu tîm ehangach er mwyn dal i ganolbwyntio ar ddysgu a datblygu drwy gydol y flwyddyn.

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:** Mae'r ACC yn gwerthfawrogi diwylliant cynhwysol. Rydym yn ceisio denu a chadw gweithlu cynrychioladol sy'n deall anghenion y boblogaeth amrywiol rydym yn ei gwasanaethu ac sy'n gallu defnyddio'r wybodaeth honno i wella'r modd rydym yn darparu cymorth cyfreithiol. Rydym wedi penodi hyrwyddwr amrywiaeth yn ein Tîm Gweithredol sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo blaenoriaethau amrywiaeth yr ACC.

Yn 2013/14 nodasom set o flaenoriaethau amrywiaeth ar gyfer yr ACC. Mae'r rhain yn dal yn berthnasol i'n gwaith yn 2014/15. Byddwn yn a) sicrhau bod yr arweiniad yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; b) gwella cefnogaeth i staff sydd ag anabledd; c) adeiladu diwylliant sy'n cynnwys gwahanol batrymau gweithio; ch) helpu i sicrhau cynrychiolaeth amrywiol o staff ar raddfeydd uwch; a d) gwella gallu staff i ystyried y ddyletswydd gyfrifoldeb er mwyn ein galluogi i gomisiynu a gweinyddu cymorth cyfreithiol yn effeithlon.

### **Mae ein prif weithgareddau'n cynnwys:**

- Sefydlu Hyrwyddwyr an-Abledd lleol i ddarparu pwynt cyswllt lleol ar gyfer materion anabledd a chynorthwyo staff i rannu eu gwybodaeth am anabledd gyda chydweithwyr; er enghraifft yn Nottingham mae'r hyrwyddwyr an-Abledd wedi adolygu'r broses gynefino er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys trafodaethau ynglŷn ag abledd ac addasiadau rhesymol.
- Cefnogi addewid y Weinyddiaeth Cyfiawnder i hyrwyddo'r ymgyrch 'Amser i Newid', sy'n herio stigma iechyd meddwl yn y gweithle {astudiaeth achos #2}.
- Hyrwyddo Gwasanaeth Cymorth Addasiad Rhesymol y Weinyddiaeth Cyfiawnder.
- Hyrwyddo'r arferion gorau o ran gweithio hyblyg a mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal gweithio hyblyg yn yr ACC a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.
- Sicrhau bod y staff i gyd wedi cyflawni'r gofyniad i gwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a darparu cyfleoedd iddynt ddal i ddatblygu eu gwybodaeth am gymhwyso dyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus.
- Targedu cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

Rydym yn adrodd am gamau gweithredu penodol dan fframwaith Amcanion Cydraddoldeb y Weinyddiaeth Cyfiawnder, y ceir manylion amdano ar y wefan Gyfiawnder yn: <https://www.gov.uk/government/publications/ministry-of-justice-equality-objectives-2012-2016>

## Astudiaeth Achos #2: Codi ymwybyddiaeth o lechyd Meddwl

Cynhaliodd hyrwyddwyr ymgysylltu ac an-Abledd yn yr ACC ddigwyddiadau ar gyfer cydweithwyr er mwyn hyrwyddo 'Amser i Newid', yr ymgyrch genedlaethol i gael gwared ar stigma ynglŷn â materion iechyd meddwl y daeth y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn un o'i chefnogwyr ym mis Ebrill 2013. Derbyniodd y staff hyfforddiant a sgysiau gan MIND, cymerasant ran mewn cwisiau cywir neu anghywir, rhanasant brofiadau personol a rhoddwyd gwybodaeth iddynt am ganllawiau, adnoddau a rhwydweithiau cefnogi sydd ar gael. Roedd y digwyddiad yn help i gael gwared ar stigma ynglŷn â materion iechyd meddwl yn yr ACC.

## Ein Partneriaid a Darparwyr

Rydym yn gweithio gyda llawer o wahanol ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfreithwyr, bargyfreithwyr, cyfryngwyr a gwasanaethau cyngor cyfreithiol. Mae llawer o'n darparwyr cymorth cyfreithiol yn fusnesau bach a chanolig ac yn cynnwys unigolion hunangyflogedig, cwmnïau mawr o gyfreithwyr, sefydliadau dielw a strwythurau busnes amgen.

Mae ein darparwyr yn cynnig gwasanaethau cyfreithiol amrywiol gan gynnwys cyngor dros y ffôn, cynrychiolaeth a chyfryngu.

Yn ystod 2013/14, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â'n darparwyr i weithredu'r diwygiadau cymorth cyfreithiol tra maent hwy wedi dal i ddarparu cymorth cyfreithiol i'r cyhoedd. Gyda'n gilydd, rydym yn darparu tua 2 filiwn o weithredoedd cymorth cyfreithiol y flwyddyn gan gynnwys cymorth drwy ein gwasanaeth ffôn Cyngor Cyfreithiol Cymunedol.

Rydym yn dal i wella ein gwasanaeth i ddarparwyr, er enghraifft drwy:

1. Lleihau mwy fyth ar yr amseroedd prosesu ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau a thalu biliau.
2. Dal i wella cymorth rheoli contractau i ddarparwyr. Yn 2013/14 helpodd hyn i leihau cyfraddau'r biliau a wrthodir a gwnaeth hynny yn ei dro helpu llif arian darparwyr gan fod mwy o filiau'n cael eu prosesu yn dilyn eu cyflwyniad cyntaf.
3. Newid i gyflwyno ceisiadau a biliau ar-lein, ynghyd â hyfforddiant, i wella effeithlonrwydd ymhellach.

Mae'r ACC hefyd yn gweithio mewn cysylltiad agos â rhanddeiliaid allweddol eraill yn y system gyfiawnder ehangach. Enghreifftiau o'r rhain yw cydweithwyr yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Cymdeithas y Cyfreithwyr a Chyngor y Bar, y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, y Gwasanaeth Ansolfedd a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLLITEM).



## 1.3 Ein blwyddyn gyntaf fel Asiantaeth Weithredol

Yn ystod blwyddyn gyntaf yr ACC gwelwyd perfformiad cryf mewn gweithrediadau a rheolaeth ariannol, a'r cyfan yn cael ei gyflawni ochr yn ochr â nifer o raglenni newid mawr ac mewn partneriaeth â'n darparwyr a'n partneriaid yn y system gyfiawnder ehangach.

### Cyflawni ein Rhaglenni Newid

#### Newid i fod yn Asiantaeth Weithredol:

Ers ei sefydlu ar 1 Ebrill 2013 mae'r Asiantaeth wedi cwblhau'r broses o newid o fod yn Gorff Cyhoeddus Anllywodraethol i fod yn un o Asiantaethau Gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Cwblhawyd y broses hon mewn pryd, o fewn y gyllideb, a heb amharu ar ein gweithgareddau craidd. Roedd hyn yn cynnwys:

#### Cyfuno Ystadau

Rhaglen sylweddol o symud swyddfeydd, gan gynnwys cau ein swyddfeydd mawr yn yr Exchange Tower yn Llundain. Cwblhaodd hyn broses gyfuno a arweiniodd at £1.5m o arbedion yn ein portffolio ystadau.

#### Integreiddio yn y Gwasanaeth Sifil

Integreiddio ein holl staff yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Gwasanaeth Sifil ehangach. Arweiniodd hyn at lawer o gyfleoedd datblygu newydd, gan gynnwys Dysgu Gwasanaeth Sifil. Daeth hefyd â staff yr ACC yn rhan o raglen rheoli talentau'r Gwasanaeth Sifil.

#### Rhannu Gwasanaethau

Trosglwyddo i wasanaethau corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, gan gynnwys gwasanaethau adnoddau dynol, gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau a rennir. Arweiniodd hyn at ragor o arbedion effeithlonrwydd a sicrhodd bod yr ACC yn cael mynediad at wasanaethau o safon.

### **Gweithredu'r rhaglen Diwygio Cymorth Cyfreithiol:**

Yn 2013/14 dechreuasom ddarparu cymorth cyfreithiol dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012, deddf newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2013. Roedd hon yn rhaglen o ddiwygiadau eang i gwmpas cymorth cyfreithiol a chymhwyster cleientiaid. Roedd yn cynnwys gweithredu newidiadau i reoliadau Profion Modd Llys y Goron a oedd yn cyflwyno rhagor o newidiadau i gyfraniadau tuag at gostau cyfreithiol ac yn ehangu ein pwerau gorfodi er mwyn gwella'r modd y cesglir dyledion sy'n ddyledus.

### **Gweithredu Diwygiadau Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol:**

Ym mis Ebrill 2013 lansiodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ymgynghoriad Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol a oedd yn trafod rhagor o ddiwygiadau cymorth cyfreithiol gyda'r bwriad o gynyddu hyder y cyhoedd mewn cymorth cyfreithiol a lleihau'r gost o ariannu'r system cymorth cyfreithiol i drethdalwyr. Fel yr asiantaeth sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth cyfreithiol mae'r ACC yn gyfrifol am weithredu cynigion Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol, gan weithio ar y cyd â'r proffesiwn cyfreithiol er mwyn gwneud hyn mor effeithiol ag sy'n bosib. Cyflawnwyd dwy ran gyntaf y diwygiadau'n llwyddiannus mewn partneriaeth â chydweithwyr polisi a materion cyfreithiol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn Rhagfyr 2013 ac Ionawr 2014. Roedd y rhain yn cynnwys

newidiadau i ffioedd cymorth cyfreithiol sifil a theulu; cyflwyno trothwy cymhwyster ar gyfer Llys y Goron er mwyn atal y diffynyddion cyfoethocaf rhag cael cymorth cyfreithiol; a chyfyngu cymorth cyfreithiol i gyfraith carchardai..

### **Treialu'r Rhaglen Gyflenwi Integredig:**

Mae'r Rhaglen Gyflenwi Integredig yn gyfrifol am ddatblygu a chyflwyno'r System Rheoli Cleientiaid a Chostau (CCMS) a fydd yn galluogi'r ACC i roi cymorth cyfreithiol, talu biliau ac adennill dyledion yn electronig ar gyfer gwaith trwyddedig sifil. Y llynedd, wrth i'r system gael ei threialu, gwnaethpwyd cynnydd sylweddol tuag at roi'r system ar waith yn llawn ac mae 70 o ddarparwyr yn defnyddio'r system ar hyn o bryd. Mae ein Rheolwyr Contractau wedi bod yn gweithio mewn cysylltiad agos â darparwyr sifil eraill i'w helpu i gynllunio ar gyfer cyflwyno'r system.

### **Gweithio gyda'n gilydd i gyflawni ar sail ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)**

Drwy gydol y flwyddyn mae ein perfformiad ar sail ein DPA wedi parhau'n gryf a dylem allu cyrraedd ein targedau. Mae'n werth nodi bod perfformiad Rheoli Achosion wedi bod yn gyson uwch na'r targedau ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaeth. Bydd ein perfformiad ar sail ein DPA ar gyfer y flwyddyn yn cael eu cyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr ACC yn haf 2014.

Yn ogystal â chynnal perfformiad ein targedau prosesu, rydym wedi gwneud cynnydd pellach wrth leihau lefel y ceisiadau a'r biliau sy'n cael eu gwrthod – cynyddu effeithlonrwydd ein gwaith prosesu a gwella'r profiad i ddarparwyr hefyd. Gwnaethpwyd hyn mewn partneriaeth â'n darparwyr a fu'n gweithio gyda Rheolwyr Contractau'r ACC er mwyn mynd i'r afael â phrif achosion gwallau {astudiaeth achos #3}.

### **Astudiaeth Achos #3: Lleihau nifer y biliau sy'n cael eu gwrthod yn y flwyddyn**

Cydnabu Rheoli Achosion, Rheoli Contractau a'r tîm Cynllunio a Pherfformiad fod angen gwelliannau i'r prosesau gwrthod biliau sifil a throseddol yn fewnol ac yn allanol. Cysylltodd Rheolwyr Contractau â darparwyr â'r cyfraddau gwrthod uchaf a gweithio, gyda'r timau Rheoli Achosion, i drafod rhesymau dros wrthod mewn mwy o fanylder a rhoi hyfforddiant i ddarparwyr. Gwnaethpwyd hyn drwy weithdai, sesiynau cyflwyno ar-lein ac ymweliadau â safleoedd a gwahoddwyd darparwyr hefyd i ddysgu mwy am ein prosesau a'n gweithdrefnau. Arweiniodd y gwaith hwn at: newidiadau i'r rhesymau dros wrthod sy'n cael eu cofnodi ar ein systemau; gwella'n proses reoli ansawdd; defnyddio rhestrau cyfeirio ar gyfer darparwyr a gweithwyr achos; a sefydlu grŵp ebost a oedd yn caniatáu i ddarparwyr herio gwrthodiad. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn cyfraddau gwrthod biliau sifil a throseddol.

## Rheolaeth Ariannol

Mae ein pwyslais ar reolaeth ariannol wedi bod yn llwyddiannus, a 2012/13 oedd y flwyddyn gyntaf er 2007/08 i'n cyfrifon gael eu rhoi gerbron y Senedd â barn archwilio rheoleidd-dra ddiamod. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosib oni bai am waith caled ein staff a chydweithrediad â'n darparwyr cymorth cyfreithiol i leihau'r gwallau a gyfrannodd tuag at osod amodau yn y blynyddoedd blaenorol {astudiaeth achos #4}.

Yn 2013/14 rydym wedi cadw o fewn ein cyllideb lai ar gyfer gwaith gweinyddol a'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol, drwy gynyddu amllder rhagolygon y gronfa, drwy wella'r modd y mae'n gwaith cynllunio ariannol yn cael ei reoli, a thrwy gael gwell trafodaethau â thimau gweithredol ynglŷn â sut mae arian yn cael ei wario a'i reoli.

## Astudiaeth Achos #4: Lleihau gwallau

Mae Rheoli Contractau (RhC) a Sicrwydd Gweithredol (SG) wedi gweithio mewn cysylltiad agos er mwyn lleihau ein cyfradd gwallau net. Drwy wneud profion craidd – methodoleg a ddefnyddir i nodi gwallau mewn biliau o sampl ystadegol o achosion – darparodd SG adborth manwl i RhC am unrhyw wallau. Defnyddiodd RhC yr adborth hwn i ddatblygu a darparu hyfforddiant a chyfarwyddyd i ddarparwyr er mwyn osgoi gwallau yn y dyfodol, a thynnodd sylw darparwyr at wallau unigol er mwyn canfod a ellid rhyddhau rhagor o dystiolaeth i gadarnhau'r hawliad a thrwy hynny ddileu'r gwall. Lle nad oedd rhagor o dystiolaeth ar gael cynhaliwyd rhagor o adolygiadau ac archwiliadau gan SG er mwyn adennill unrhyw hawliadau amhriodol ac unrhyw ordaliadau. Oherwydd y cydweithio, mae nifer y gwallau wedi dal i leihau ac mae'r gwelliant hwn, ynghyd â'r symiau a adenillwyd, wedi lleihau digon ar y gyfradd gwallau net i osgoi amodi cyfrifon a diogelu'r gronfa.

## Cydweithio

Gweithio mewn partneriaeth, yn fewnol ac yn allanol, yw un o'r prif ffactorau sydd wedi'n galluogi i gyflawni ein hamcanion strategol. Drwy sefydlu ymdeimlad o bwrpas cyffredin, rydym wedi lansio a gweithredu strategaeth atal twyll wedi'i diweddarau, cryfhau ein perthynas â phartneriaid ym mhob rhan o'r system gyfiawnder a gwella cysondeb wrth brosesu ceisiadau a biliau {astudiaeth achos #5}. Bydd cydweithio'n dal yn thema allweddol drwy gydol y flwyddyn nesaf, yn enwedig wrth i ni geisio cyfrannu tuag at nodau'r system gyfiawnder ehangach drwy weithio gydag adrannau eraill y Llywodraeth.

### Astudiaeth Achos #5: Gweithio mewn partneriaeth

Yn dilyn adolygiad Scott Baker o drefniadau estraddodi'r Deyrnas Unedig a phryderon barnwrol ynglŷn ag effaith oedi â phroffion modd cymorth cyfreithiol ar brydlondeb gweithredu gwarantau mewn achosion estraddodi, bu'r Tîm Llysoedd Cenedlaethol yn gweithio gyda thîm Cymorth Cyfreithiol GLITEM, y Cyfreithiwr ar Ddyletswydd, a thimau Rheoli Contractau a Datblygu Gwasanaeth i gasglu a dadansoddi data ar y ffactorau sy'n achosi'r oedi. Un o ganlyniadau'r dadansoddiad hwn oedd yr ymgynghoriad, ac yn dilyn hynny gweithredu rota wirfoddol newydd ar gyfer cyfreithwyr ar ddyletswydd sydd â phrofiad o gyfraith estraddodi. Arweiniodd hyn, ynghyd â gwelliannau yng nghysondeb prosesu a lleihad yn nifer yr achosion sy'n cael eu gwrthod a'r gwaith sy'n cael ei ail-wneud, at welliant yng nghyflymder penderfyniadau sydd wedi aros yn gyson uchel er Awst 2013.

## Gwelliant Parhaus

Ym mis Gorffennaf 2012 cynhyrchodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder strategaeth Gwelliant Parhaus; cynllun lefel uchel yn ymwneud â'r gwaith sydd ei angen er mwyn ymgorffori egwyddorion Gwelliant Parhaus cyn diwedd 2015. Drwy weithio gyda thîm Gwelliant Parhaus canolog y Weinyddiaeth Cyfiawnder rydym wedi cynnal academiâu Gwelliant Parhaus yn ddiweddar sydd wedi hyfforddi nifer o staff fel ymarferwyr Gwelliant Parhaus yn chwech o'n swyddfeydd rhanbarthol ac yn y Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus. Dechreuodd academi Gwelliant Parhaus arall ym mis Chwefror 2014 a bydd hyn yn sicrhau bod Ymarferwyr Gwelliant Parhaus ym mhob un o'n safleoedd prosesu gweithredol. Bydd hyn yn rhoi i dimau y sgiliau a'r offer i wneud ac arwain gwelliannau, a fydd, yn eu tro, yn gwella ein gwasanaeth i'n cleientiaid, i'n cyflenwyr ac i rannau eraill o'r Asiantaeth {astudiaeth achos #6}.

### Astudiaeth Achos #6: Effaith Gwelliant Parhaus ar ein prosesau

Mae staff yn y timau ffôn sifil wedi bod yn gweithio'n galed er mwyn gwella perfformiad. Erbyn Ionawr 2014 (amser prysuraf y flwyddyn ar gyfer galwadau, yn draddodiadol, ar ôl gwyliau'r Nadolig) roedd yr amser aros cyfartalog ar gyfer galwadau wedi gostwng yn sylweddol i un munud a 49 eiliad. Gwnaethpwyd hyn drwy ailflaenoriaethu adnoddau a chyflwyno gwelliannau i brosesau a nodwyd drwy weithgaredd Gwelliant Parhaus gan gynnwys creu cronfa ddata newydd ac offeryn rheoli gwybodaeth i helpu i leihau gwastraff a dyblygu gwaith; adborth rheolaidd i gydweithwyr eraill yn yr ACC ac uwch reolwyr ynglŷn â'r rhesymau dros alwadau fel bod modd datrys problemau'n gynharach a lleihau nifer y galwadau yn y dyfodol; a datblygu system galw'n ôl lle gall darparwyr ofyn i rywun roi caniad yn ôl ar adeg sy'n gyfleus iddynt.

## Beth sy'n gwneud ein pobl yn falch

Yn ystod ymweliadau'r Uwch Grŵp Arweinyddiaeth yn Chwefror a Mawrth 2014 gofynasom i'n staff beth oedd eu barn am ein blwyddyn gyntaf fel Asiantaeth Weithredol a beth oedd wedi'u gwneud yn falch yn ystod 2013/14. Mae rhai o'u sylwadau i'w gweld isod:

Fy nhîm – y ffordd rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd a gydag eraill yn yr ACC ac yn allanol.

Cadw'r cyfrifon yn ddiamod ar ôl gweithio mor galed i wneud hynny.

Cael ein henwebu ar gyfer y wobr Arloesedd.

Cyrraedd targedau a rhagori arnyn nhw.

Cydweithio â'r Rhaglen Gyflenwi Integredig a rheoli contractau.

Helpu darparwyr i ddehongli canllawiau a rheoliadau'r Ddeddf LASPO newydd.

Ymgysylltu'n uniongyrchol â 400 o staff i drafod gweithio'n hyblyg ac ymwybyddiaeth o anabledd.

Trosglwyddo o'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i'r ACC / y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth o iechyd a lles meddyliol yn fy adran.

Adborth cadarnhaol gan ddarparwyr ynglŷn ag ansawdd cyfathrebu.

Arolwg staff 2013 – ymgysylltiad staff wedi cynyddu.

# 1.4 Ein hamcanion strategol

Byddwn yn dal i weithredu'r blaenoriaethau busnes a sefydlwyd gennym y llynedd drwy gydol 2014/15. Mae hyn er mwyn i ni allu adeiladu ar lwyddiant 2013/14 a sicrhau cysondeb i staff yn ail flwyddyn yr Asiantaeth.

Rydym yn dal i wella'r sefydliad rydym wedi'i ddatblygu hyd yn hyn a'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig i ddarparwyr. Mae ein dull gweithredu'n canolbwyntio ar dair amcan strategol sy'n sail i'n pwrpas. Mae'r rhain yn ymwneud â meysydd sy'n hollbwysig i'n busnes, sef (i) gwaith achos effeithlon; (ii) rheolaeth ariannol gref; (iii) comisiynu a rheoli contractau'n effeithiol; a (iv) rheoli arian cyhoeddus yn gyfrifol. Yr un pryd maent yn canolbwyntio ar bartneriaethau gwaith cryf â'r system gyfiawnder ehangach a datblygu'r gallu sefydliadol sydd ei angen er mwyn cyflawni'r heriau sydd o'n blaenau. Mae'r gweithgareddau craidd a'r ymrwymadau sy'n sail i'r amcanion strategol hyn ar gyfer 2014/15 i'w gweld ar dudalennau 25 i 28

## Ein Pwrpas

Cyflenwi cymorth cyfreithiol yn effeithlon ac yn effeithiol yn rhan o'r system gyfiawnder

## Amcan Strategol 1

Gwella gwaith achos i leihau cost, gwella rheolaeth a rhoi gwell gwasanaeth i gwsmeriaid

Darparu gwasanaeth effeithlon a rhagorol i gwsmeriaid

Gwella'n prosesau ar gyfer talu biliau a phrosesu ceisiadau

Darparu gwerth am arian

## Amcan Strategol 2

Gwella gallu sefydliadol i ateb yr heriau o'n blaenau, gan gynnwys datblygu ein pobl ac ymgysylltu â hwy

Datblygu ein staff a gwella lefelau ymgysylltu

Gwella rheoli perfformiad a dysgu a datblygu

Datblygu gallu o fewn y sefydliad gan sicrhau ein bod yn barod ar gyfer Digidol yn Ddiofyn

## Amcan Strategol 3

Magu a chynnal partneriaethau cryf i sicrhau darpariaeth o ansawdd a chyfrannu'n llawn at nodau ehangach cyfiawnder a'r Llywodraeth

Cyfrannu tuag at nodau ehangach y system gyfiawnder sydd yn y Rhaglen Trawsnewid Cyfiawnder

Gweithio'n gadarnhaol gydag adrannau eraill y Llywodraeth

Gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod gwasanaeth o safon yn cael ei ddarparu



# Adran 2:

## Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol: Blaenoriaethau Busnes

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd o'n blaenau, ein dyfodol a sut rydym yn canolbwyntio ar ddal i wneud yr ACC yn lle gwell i weithio.

## 2.1 Ein nodau ar gyfer y flwyddyn sydd o'n blaenau

Mae Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012 a diwygiadau Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol yn ategu'r rhaglen ddiwygio ehangach a gynlluniwyd er mwyn creu system gyfiawnder symlach. Y weledigaeth strategol yw system gyfiawnder sy'n fwy effeithiol, yn llai costus ac yn fwy ymatebol i'r cyhoedd.

Bydd 2014/15 yn dod â nifer o heriau newydd i'r ACC. Mae cyllideb gyffredinol y gronfa cymorth cyfreithiol gryn dipyn yn llai ar gyfer y flwyddyn a bydd yn rhaid i'n gwaith gwella costau parhaus sicrhau ein bod yn gallu gwneud yr arbedion angenrheidiol yn y gyllideb weinyddu. Byddwn hefyd yn dal i asesu effaith weithredol y diwygiadau ar ein gallu i gyrraedd ein targedau perfformiad a sicrhau bod ein gweithlu'n parhau'n ymroddedig a brwdfrydig.

Yn 2014/15 byddwn yn gweithredu nifer o raglenni newid pwysig a fydd yn arwain at arbedion ac a fydd yn darparu gwell gwasanaeth i'n darparwyr. Ym misoedd cyntaf y flwyddyn byddwn yn canolbwyntio cryn dipyn ar weithredu diwygiadau Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol. Byddwn hefyd yn rhoi'r System Rheoli Cleientiaid a Chostau ar waith, fel bod y rhan fwyaf o'n gwaith prosesu cymorth cyfreithiol sifil yn cael ei wneud ar-lein, ac yn gweithredu'r Rhaglen Newid Troseddu a fydd yn trosglwyddo'r gwaith o brosesu ceisiadau cymorth cyfreithiol troseddol, sy'n cael eu gweinyddu gan GLITEM ar hyn o bryd, i'r ACC. Bydd ein hymrwymiad i wneud yr ACC yn lle

gwell i weithio'n sicrhau bod ein staff yn cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod hwn o drawsnewid.

### Ein rhaglenni newid

#### **Gweithredu diwygiadau Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol:**

Yn dilyn penderfyniadau ar y diwygiadau polisi eraill a amlinellwyd yn Ymateb y Llywodraeth, a gyhoeddwyd ar 27 Chwefror a 27 Mawrth 2014, rydym yn symud ymlaen i weithredu trydedd ran y pecyn diwygio gan gynnwys gweithredu'r Prawf Preswyllo ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a chaffael cymorth cyfreithiol troseddol. Mae llawer o'r diwygiadau'n galw am newidiadau sylweddol i'n systemau TG a'n prosesau busnes. Bydd y rhaglen Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol yn sicrhau bod y newidiadau hyn yn caniatáu i'n timau gweithredol ddal i weinyddu cymorth cyfreithiol yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol sy'n bosib.

#### **Gweithredu CCMS:**

Pan fydd wedi cael ei rhoi ar waith yn llawn, bydd y CCMS yn caniatáu i ddarparwyr ac eiriolwyr cymorth cyfreithiol gyflwyno'u holl geisiadau a biliau ar-lein, gan wella effeithlonrwydd a rheolaeth yn ein hadran gwaith achos sifil. Bydd hefyd yn lleihau cyfraddau gwallau mewn ceisiadau a biliau a gyflwynwyd.

Yn dilyn y peilot yn 2013/14, byddwn yn cynyddu nifer y darparwyr a'r eiriolwyr sy'n defnyddio CCMS, gan weithio mewn cysylltiad agos â defnyddwyr allanol i'w cynorthwyo i ddefnyddio'r system. Ochr yn ochr â hyn byddwn yn cwblhau'r gwaith o hyfforddi'n staff ein hunain

ynglŷn â'r system newydd ac yn dod â phob safle sifil ar CCMS. Byddwn yn monitro perfformiad yn ofalus ac yn dal i ymgysylltu â darparwyr, eiriolwyr a'u cyrff cynrychioladol er mwyn ystyried adborth a chyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus.

### Rhaglen Newid Troseddu:

Amcan Rhaglen Newid Troseddu'r ACC yw prosesu'r holl geisiadau a biliau cymorth cyfreithiol troseddol mewn ffordd ddibapur ac electronig. Fel rhan o'r broses hon byddwn yn trosglwyddo ac yn canoli'r broses ceisiadau cymorth cyfreithiol bresennol o GLITEM i'r ACC. Byddwn hefyd yn moderneiddio'r broses geisiadau drwy ehangu'r defnydd o geisiadau electronig (eFfurflenni) – fel bod pob darparwr yn gallu cyflwyno ceisiadau am gymorth cyfreithiol ar-lein – a chyflwyno newidiadau i'r system filio i'w throï'n broses ar-lein. O ganlyniad, byddwn yn cynnig y rhan fwyaf o'n gwasanaethau ar-lein, gan wella profiad ein darparwyr a gwneud cyfraniad sylweddol i agenda Digidol yn Ddiodyfyn Swyddfa'r Cabinet.

Dan y broses hon sydd wedi'i moderneiddio a'i hawtomeiddio disgwyliwn y byddwn yn gallu dal i wella ein gwasanaeth i ddarparwyr yn ogystal â gwneud arbedion effeithlonrwydd. Bydd y newid hwn yn helpu i wella ansawdd ceisiadau ac yn cefnogi mwy o reolaeth ariannol i'r ACC.

### Gwelliant parhaus

Ochr yn ochr â'n rhaglenni newid byddwn hefyd yn sefydlu diwylliant o welliant parhaus drwy gydol y sefydliad yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y tair blynedd nesaf mae arnom eisiau rhoi'r grym i'n staff deimlo mwy o berchnogaeth dros eu

gwaith, arwain ar ddiwygiadau lleol, ac ailddylunio'n prosesau er mwyn cynyddu effeithlonrwydd. Bydd hyn yn golygu newid diwylliannol a dechrau ystyried ein gwaith darparu fel un broses gyfan, yn hytrach na chyfres o wahanol brosesau sy'n dilyn ei gilydd.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy hyfforddiant, drwy ddefnyddio sianeli cyfathrebu, a drwy arweinwyr sy'n fodolau rôl. Fel y dangoswyd yn barod yn 2013/14, bydd gwelliant parhaus yn caniatáu i ni fanteisio ar botensial llawn ein staff er mwyn sicrhau bod y cynnydd rydym wedi'i wneud wrth ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol yn gallu parhau.

### Gweithio gyda Phartneriaid

Byddwn yn dal i weithio mewn cysylltiad agos â'n partneriaid er mwyn cefnogi cynlluniau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, y System Cyfiawnder Troseddol a'r Llywodraeth i wella'r system gyfiawnder. Drwy ein perthynas waith gref â thîm polisi'r Weinyddiaeth Cyfiawnder byddwn yn cefnogi Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol i leihau hyd achosion gofal plant a gwella rheolaeth a lleihau cost arbenigwyr, a chynorthwyo Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol i edrych ar ffyrdd o wella effeithlonrwydd gweithgareddau cyfiawnder troseddol ym mhob un o'r ardaloedd lleol. Byddwn hefyd yn cymryd rhan yn rhaglenni effeithlonrwydd a llwyfan cyffredin y system cyfiawnder troseddol drwy dreialu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau amddiffyn troseddol, gan gynnwys drwy ddefnyddio technoleg sy'n cefnogi agenda Digidol yn Ddiodyfyn y Llywodraeth.

## Ein Hymrwymiadau a Dangosyddion Perfformiad Allweddol:

Mae ein hamcanion strategol yn seiliedig ar ein hymrwymiadau ar gyfer y flwyddyn ac maent yn cael eu monitro drwy bedwar dangosydd perfformiad allweddol (DPA) sy'n mesur effaith elfennau pwysicaf ein

gwaith bob dydd. Bydd cynnydd ar sail cyflawni ein hymrwymiadau a DPA yn cael ei olrhain drwy ein fframwaith perfformiad ac yn cael ei drafod ar lefel leol a chan Dîm Gweithredol yr ACC a'n Bwrdd bob mis.

Nodir yr ymrwymadau a'r DPA sy'n sail i'n Hamcanion Strategol isod:

## Yn ystod y flwyddyn byddwn yn:

### Amcan Strategol 1

Gwella gwaith achos i leihau cost, gwella rheolaeth a rhoi gwell gwasanaeth i gwsmeriaid

- Cyflymu'r amser rydym yn ei gymryd i wneud taliadau ac asesu cymhwyster gan gadw'r safon
- Dal i ddigideiddio ein gwasanaethau a'n gwaith prosesu
- Adolygu'r model gweithredu gwaith achos yn dilyn gweithredu darpariaethau Deddf LAPSO 2012, Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol, a'r system TG newydd ar gyfer achosion sifil (CCMS)
- Gweithio mewn cysylltiad agos â darparwyr er mwyn lleihau'r gyfradd gwallau net ymhellach â thaliadau i ddarparwyr ac ag asesiadau cymhwyster
- Datblygu ceisiadau a biliau ar-lein troseddol (gan gynnwys rhoi diwygiadau troseddol ar waith)
- Dal i gynyddu casgliadau gros drwy gynllun Profion Modd Llys y Goron, gwella cyfraddau casglu, cymarebau dyledion arian parod a dyledion sicredig ac, o ganlyniad, yr arbedion sy'n cael eu gwneud
- Dal i ddarparu gwasanaeth amddiffyn troseddol effeithlon o safon uchel i gleientiaid drwy'r Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus

## Yn gysylltiedig â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ganlyn:

### DPA: Rheolaeth Ariannol

- Costau gweinyddol yr Asiantaeth – Yn monitro darparu arbedion effeithlonrwydd ac arbedion mewn costau sydd eu hangen er mwyn galluogi'r Asiantaeth i reoli ei gweithrediadau o fewn y gyllideb weinyddu lai a ddyrannwyd
- Y Gronfa Cymorth Cyfreithiol – Yn monitro gwariant cymorth cyfreithiol, o fewn y gyllideb a ddyrannwyd, gan gynnwys gwneud arbedion sy'n gysylltiedig â gweithredu diwygiadau
- Sicrwydd – Yn monitro cywirdeb a chydymffurfiad ceisiadau a thaliadau cymorth cyfreithiol

### DPA: Cyflawni Gweithredol

- Rheoli Achosion – Yn mesur perfformiad ein swyddogaethau prosesu craidd – gwneud asesiadau cymhwyster, ymdrin â newidiadau a thalu biliau ar gyfer gwaith sifil a throseddol
- Rheoli Contractau – Yn monitro rheolaeth perfformiad contractau gan ddarparwyr, gan gynnwys cynnal y gyfradd gwallau isel a dal i leihau nifer y biliau anghywir a gyflwynir
- Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus – Yn mesur perfformiad y Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar werth am arian, ansawdd a chyfran y galwadau dyletswydd a dderbynnir yn lleol
- Gwasanaeth TG – Yn mesur y gwasanaeth i gwsmeriaid a ddarperir i staff yn yr ACC a gwell gwasanaeth ar gael mewn cysylltiad â thoriadau i'r system

## Yn ystod y flwyddyn byddwn yn:

### Amcan Strategol 2

Gwella gallu sefydliadol i ateb yr heriau o'n blaenau, gan gynnwys datblygu ein pobl ac ymgysylltu â hwy

- Gwella ymgysylltiad â'n pobl drwy hyrwyddo gwaith tîm lleol a gwella'r amgylchedd gweithio uniongyrchol; cael cyfathrebu'n iawn; a buddsoddi mewn sgiliau
- Ymgorffori rheoli talentau drwy nodi a datblygu staff sydd â'r potensial i symud ymlaen
- Meithrin gallu eiriolaeth yn y Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus
- Dal i ymgysylltu â chynllun gallu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ei chyfanrwydd er mwyn datblygu'r lefel iawn o allu yn yr Asiantaeth
- Ymgorffori gweithgareddau dysgu a datblygu a chynorthwyo pob aelod o'r staff i gwblhau ei 5 diwrnod o weithgaredd dysgu a datblygu yn ystod y flwyddyn
- Gweithredu'r gwasanaethau cymorth cyfreithiol Digidol yn Ddiofyn, gan gynnwys gwella mynediad darparwyr at wasanaethau ar-lein yr ACC

## Yn gysylltiedig â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ganlyn:

### DPA: Pobl

- Ymgysylltu â Phobl, Gallu a Staff – Yn monitro pa mor llwyddiannus rydym yn gwella ymgysylltiad staff ac yn lleihau nifer y diwrnodau gwaith a gollir drwy absenoldeb staff

## Yn ystod y flwyddyn byddwn yn:

### Amcan Strategol 3

Magu a chynnal partneriaethau cryf i sicrhau darpariaeth o ansawdd a chyfrannu'n llawn at nodau ehangach cyfiawnder a'r Llywodraeth

- Gweithredu polisi'r Weinyddiaeth Cyfiawnder er mwyn darparu mecanwaith cystadleuol ar gyfer contractau troseddu a datblygu a gweithredu strategaeth rheoli darparwyr/comisiynu newydd
- Cefnogi cynlluniau effeithlonrwydd a datblygu gwasanaeth y system gyfiawnder troseddol
- Defnyddio gwybodaeth a phrofiad y Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus o'r farchnad amddiffyn troseddol fel sail i ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau
- Gweithio gyda'n partneriaid i gyflawni'n rhaglenni newid – Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol, CCMS a Newid Troseddu
- Dal i weithio mewn cysylltiad agos â'n darparwyr ac i ymgysylltu â hwy gan gynnwys drwy lansio strategaeth sianel newydd ar gyfer ein gwasanaeth i ddarparwyr

## Yn gysylltiedig â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ganlyn:

### DPA: Enw Da

- Gohebiaeth – Yn monitro ymateb ein gwasanaeth i gwsmeriaid yng nghyswllt ymholiadau, gohebiaeth a chwynion, gan gynnwys ceisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data

## 2.2 Gwneud yr ACC yn lle gwell i weithio

Mae ein profiad y llynedd wedi dangos unwaith eto pa mor bwysig yw'n staff mewn cyfnod anodd. Dyma pam y bydd yr ACC yn canolbwyntio yn ystod y flwyddyn sydd i ddod ar wneud yr ACC yn lle gwell i weithio. Bydd hyn yn rhan o bopeth y byddwn yn ei wneud.

Roedd canlyniadau'r arolwg o ymgysylltiad staff ar gyfer 2013 yn gadarnhaol â sgôr ymgysylltiad gyffredinol o 60% a oedd dri phwynt canran yn uwch na sgôr 2012 a dau bwynt canran yn uwch na chyfartaledd y gwasanaeth sifil (58%), gan ein gosod yn safle 33 ar restr sefydliadau'r Gwasanaeth Sifil (o'i gymharu â safle 50 yn 2012). Mae'r sgôr ymgysylltiad yn seiliedig ar yr atebion a roddwyd i gwestiynau sy'n ymwneud â naw thema allweddol:

- **Arweinyddiaeth a Rheoli Newid**
- **Fy Ngwaith**
- **Fy Rheolwr**
- **Dysgu a Datblygu**
- **Adnoddau a Llwyth Gwaith**
- **Tâl a Buddion**
- **Amcanion Sefydliadol a Phwrpas**
- **Fy Nhîm**
- **Cynhwysiant a Thriniaeth Deg**

Yn 2013 gwelsom gynnydd yn y sgôr (% yr atebion cywir) mewn 8 o'r 9 thema. Er bod hyn, ar y cyfan, yn gadarnhaol, rydym yn gweithio er mwyn gwneud gwelliannau ac â chyfradd ymateb o 89% rydym yn ffyddiog bod y canlyniadau hyn yn darparu sail gadarn er mwyn canolbwyntio ar wneud yr ACC yn lle gwell i weithio.

Gan ddefnyddio'r canlyniadau hyn rydym wedi datblygu ein Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltiad Staff. Mae'r cynllun hwn, sy'n cael ei grynhoi isod, yn cynnwys adborth o bob lefel yn yr ACC ac yn cael ei gefnogi gan gynlluniau lleol.

### **Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltiad Staff**

1. **Hyrwyddo gwaith tîm lleol ac arferion gorau ymhlith rheolwyr llinell, a gwella'r amgylchedd gweithio uniongyrchol.**
  - Cynorthwyo rheolwyr i reoli perfformiad yn effeithiol fel bod pob aelod o'r staff yn cyflawni ei botensial yn llawn.
  - Gwella'r amgylchedd gweithio ffisegol gan gynnwys drwy ddarparu'r dechnoleg iawn i wella gallu ein staff.
  - Adeiladu amgylchedd sy'n ei gwneud hi'n haws i ni weithio ar y cyd ac yn ddiogel â'n cydweithwyr.
  - Meithrin diwylliant cynhwysol lle mae pawb yn parchu ei gilydd yn yr ACC, ac sy'n gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.



## 2. Cael cyfathrebu'n iawn a darparu gwybodaeth i bobl

- Cyhoeddi deunydd cyfathrebu rheolaidd a chynhwysfawr fel bod y staff i gyd yn cael gwybodaeth lawn am newidiadau a fydd yn effeithio arnynt.
- Annog gwelliant parhaus a gwobrwyo a chydnabod ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Sicrhau bod rheolwyr yn cynnal sesiynau un-i-un yn gyson fel bod staff yn cael digon o gefnogaeth a bod eu barn yn cael ei hystyried.
- Hysbysu'r staff i gyd ynglŷn â chynnydd â'n rhaglenni newid drwy ddiweddariadau rheolaidd.

## 3. Buddsoddi mewn sgiliau

- Cefnogi ac annog ein staff i wneud y gorau o'u pum diwrnod datblygu.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwahanol weithgareddau dysgu a datblygu sydd ar gael i staff, megis cysgodi, mentora, e-ddysgu a sesiynau hyfforddi a gynhelir yn lleol.
- Penodi mwy o hyrwyddwyr Dysgu a Datblygu lleol i ddarparu cyfarwyddyd ynglŷn â'r cyfleoedd datblygu sydd ar gael ac i helpu staff i fapio'u siwrneiau datblygu.

**Yn ystod ymweliadau'r Uwch Grŵp Arweinyddiaeth yn Chwefror a Mawrth 2014 gofynasom i'r staff beth y byddant yn ei wneud yn 2014/15 i helpu i wneud yr ACC yn lle gwell i weithio. Mae rhai o'u hymrwymyiadau i'w gweld isod:**

Ymgysylltu a chymell fy hun a'm tîm i wella ansawdd allbynnau.

Rhannu gwybodaeth a gafwyd drwy wirfoddoli gyda'r tîm a rheolwyr contractau eraill.

Anfon llai o ebyst – codi a siarad gyda phobl.

Parhau'n hyfforddwr.

Helpu i wella amgylchedd y swyddfa.

Helpu fy nhîm i fwynhau eu gwaith a chefnogi ei gilydd drwy'r heriau sydd o'n blaenau..

Cefnogi darparwyr a chwsleriaid wrth roi'r CCMS ar waith yn raddol.

Defnyddio #fy5diwrnod i wella fy sgiliau fy hun.

Hyrwyddo cydweithio a rhannu offer gwybodaeth.

Annog fy nhîm i herio'r prosesau presennol.

Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle ymhellach.

## Arweinyddiaeth

Mae arnom angen arweiniad cryf ar bob lefel yn y sefydliad er mwyn cyflawni'r cynllun hwn a darparu cefnogaeth ac ysbrydoliaeth i'n staff. Byddwn yn lansio nifer o fentrau yn ystod y flwyddyn i helpu'n harweinwyr i ddatblygu eu potensial yn llawn.

Bydd naratif arweinyddiaeth y Gwasanaeth Sifil yn darparu'r sail ar gyfer y gwaith hwn ynghyd â naratif penodol i'r ACC ar arweinyddiaeth a chyfres o astudiaethau achos sy'n cyfeirio at arweinwyr llwyddiannus ar draws y busnes. Er y bydd cyhoeddi'r naratif hwn ynddo'i hun yn sbarduno trafodaethau a gweithgareddau lleol byddwn yn datblygu gweithgareddau wedi'u targedu er mwyn dal i feithrin gallu rheolwyr ac arweinwyr ar bob lefel yn y sefydliad gan gynnwys hwyluso setiau dysgu gweithredol, a rhoi cyhoeddusrwydd i enghreifftiau o arweinyddiaeth dda a'u dathlu {astudiaeth achos #7}.

## Astudiaeth Achos #7: Mentora yn yr ACC

Sefydlodd Uwch Grŵp Arweinyddiaeth yr ACC raglen fentora eleni sydd wedi cael derbyniad da ac a fydd yn parhau yn 2014/15. Gwnaeth pob aelod o'r Grŵp ymrwymiad i gefnogi o leiaf ddau unigolyn sy'n cael eu mentora gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu gyrfa. Mae'r fenter hon wedi helpu i roi sylw i ddatblygu staff a chefnogi'n gilydd. Ategwyd hyn hefyd gan gynlluniau mentora lleol. Er enghraifft, sefydlodd tîm Rheoli Contractau'r ACC gynllun i sicrhau bod eu rheolwyr contractau ar gael fel mentoriaid i aelodau eraill o'r staff mewn gwahanol rannau o'r sefydliad. Mae nifer o gydweithwyr yn cymryd rhan yn y cynllun, a rhai'n cael eu mentora gan reolwr contractau ac eraill yn dewis cysgodi rheolwr contractau am ddiwrnod. Mae'r cynllun yn cynnig cyfle i rai sy'n cael eu mentora gael cyngor a chyfarwyddyd i gefnogi eu nodau o ran datblygiad personol, i weld y berthynas sydd gan yr ACC â'n darparwyr drostynt eu hunain, ac i ystyried a deall sut y gallwn weithio'n well gyda'n gilydd. Mae mentoriaid hefyd wedi cael budd o'r cyfle drwy ddatblygu eu sgiliau datrys problemau, a thrwy weithio gyda phobl o bob rhan o'r asiantaeth sydd wedi datblygu eu rhwydweithiau y tu allan i faes rheoli contractau.

## 2.3 Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Yn ein Cynllun Busnes cyntaf amlinellu som weledigaeth dair blynedd ar gyfer yr ACC. Erbyn diwedd 2014/15 byddwn wedi dal i wneud cynnydd da tuag at nifer fawr o'n cerrig milltir, ond mae ein cynlluniau ar gyfer datblygu a gwella ein Hasiantaeth yn parhau i 2015/16 ac ar ôl hynny.

Ni fydd ein pwrpas craidd yn newid, ond erbyn diwedd 2015/16 byddwn wedi newid i ryngweithio ar-lein yn bennaf â darparwyr cymorth cyfreithiol. Bydd cwblhau'r gwaith o weithredu'r CCMS yn gam mawr i'r cyfeiriad hwn, ynghyd â throsglwyddo'r gwaith o brosesu'r holl geisiadau cymorth cyfreithiol troseddol o GLITEM i'r ACC, a chyflwyno ceisiadau electronig (eFfurflenni). Yr un pryd, bydd yr Asiantaeth yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd sy'n dod yn sgil mwy o ddefnydd o weithio ar-lein a chydweithio â darparwyr cymorth cyfreithiol i leihau nifer y ceisiadau a'r biliau anghyflawn ac anghywir sy'n cael eu cyflwyno.

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf bydd y newidiadau hyn yn caniatáu i ni wella ein gwasanaeth i gwsmeriaid ymhellach, cymeradwyo cyllid ar gyfer pob achos ar wahân i'r rhai mwyaf cymhleth cyn pen pythefnos ar ôl derbyn ceisiadau cywir, a thalu biliau cyflawn a chywir darparwyr cyn pen pedair wythnos ar ôl eu derbyn.

### **Ein nodau parhaus o hyd ar gyfer y cyfnod o dair blynedd, 2013/14-2015/16, yw:**

- Symud tuag at wasanaethau wedi'u digideiddio'n llwyr gan gynnwys gwaith a wneir ar ein rhan gan GLITEM ar hyn o bryd.
- Lleihau amseroedd prosesu a thalu i asesiad am gymhwyster mewn achosion sifil cyn pen pythefnos a thâl cyn pen pedair wythnos ar gyfer 90% o'r achosion a lleihau amseroedd prosesu a thalu ar gyfer biliau troseddol i bedair wythnos ar gyfer 90% o'r achosion.
- Nodi arbedion effeithlonrwydd pellach neu werth ychwanegol o weithio gyda rhannau eraill o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a chwilio am ragor o gyfleoedd i weithio ar y cyd â rhannau eraill o'r Llywodraeth..
- Datblygu sgiliau a hyfforddiant arweinyddiaeth ar gyfer ein staff er mwyn dal i hybu lefelau gallu'r sefydliad.

### **Gwella'r ffordd rydym yn rhyngweithio â'n darparwyr**

Byddwn yn dal i ddatblygu'r ffordd rydym yn rhyngweithio â'n darparwyr ac yn gwella'n safonau gwasanaeth i gwsmeriaid. Un ffordd o wneud hyn fydd drwy ein Strategaeth Sianeli newydd.

Yn ystod 2014/15, ac ar ôl hynny, bydd y strategaeth hon yn trawsnewid yr ACC o sefydliad sy'n gwneud y rhan fwyaf

o'i waith ar bapur i un sy'n gwneud y rhan fwyaf o'i drafodion gwasanaeth i gwsmeriaid drwy gyfryngau digidol. Bydd y broses hon yn cael ei rhoi ar waith i ddechrau ym maes cymorth cyfreithiol sifil cyn cael ei chyflwyno i achosion troseddol a bydd ganddi ddwy brif nod

1. Gwella'r sianeli presennol er mwyn gwella bodlonrwydd cwsmeriaid.
2. Symud y rhan fwyaf o'r cysylltiadau i'r sianeli hynny sy'n cynnig y gwerth gorau am arian a'r profiad gorau i ddarparwyr, megis ebost a gwe-sgwrs

Pan fydd ein Strategaeth Sianeli newydd wedi'i chyflwyno byddwn yn gallu cynnig nifer o ffyrdd gwell i ddarparwyr gysylltu â'n gwasanaethau i gwsmeriaid.

## Trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio

Cynllun gan Swyddfa'r Cabinet sy'n amlinellu'r weledigaeth ar gyfer gweithle wedi'i drawsnewid yn y Gwasanaeth Sifil yw Trawsnewid y Ffordd Rydym yn Gweithio neu TW3. Mae TW3 yn ceisio nodi beth mae arnom ei angen er mwyn gweithio'n effeithiol, a darparu atebion wedyn i ddiwallu'r anghenion hynny.

Mae TW3 yn yr ACC yn seiliedig ar ymrwymiad i wneud yr Asiantaeth yn well lle i weithio. Bydd yn ymwneud â herio'r syniad bod gwaith yn rhywbeth sy'n cael ei wneud wrth ddesg yn un o adeiladau'r

Llywodraeth, ac yn hyrwyddo'r syniad bod 'gweithgaredd' gwaith yn cael ei wneud mewn llawer o leoedd, swyddfeydd, cartrefi a/neu fannau cyhoeddus neu leoedd eraill sy'n eiddo i'r Llywodraeth. Yn ystod y ddwy flynedd nesaf bydd y cynllun yn:

- Gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r ystâd 'swyddfeydd' bresennol er mwyn sicrhau ei bod yn fwy ymatebol i ffyrdd modern o weithio, gan gynnwys mwy o ddefnydd o ofod a gwella'r gallu i weithio a chydweithredu mewn amgylchedd nad yw'n un traddodiadol.
- Defnyddio gwell TG i gefnogi gwahanol batrymau a lleoliadau gweithio. Byddwn yn gofyn a yw'r dechnoleg bresennol yn addas i'r diben, sut y gallwn wneud gwell defnydd o dechnoleg fodern yn y ffordd rydym yn gweithio, cyfarfod a chydweithredu, a sut y gallwn adeiladu'r galluoedd digidol a'n ffordd o feddwl er mwyn cael y budd gorau o offer a dyfeisiau newydd.
- Cyflwyno polisiau adnoddau dynol sy'n hyrwyddo dulliau gweithio deallus. Byddwn yn creu pecyn mwy hyblyg i bobl mewn timau gwaith achos.

Byddwn yn cynnal nifer o gynlluniau peilot ar raddfa fach ar draws yr ACC i brofi egwyddorion TW3 a sut y gallwn eu defnyddio i sicrhau gwell effeithlonrwydd, cynhyrchiant a bodlonrwydd mewn swydd.

## Ein hagwedd at ddigideiddio'n gwasanaethau

Nod ein Technoleg Gwybodaeth yw ein helpu i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon a di-dor i ddarparwyr cymorth cyfreithiol gan leihau ein cyllideb weinyddu.

Byddwn yn canolbwyntio ar ddarparu trafodion ar-lein a fydd yn gwella ein heffeithlonrwydd a'n rheolyddion ariannol. Bydd hyn yn cynnwys ceisiadau a biliau, gan gynnwys cyflwyno tystiolaeth ar-lein, ac anfon derbynebaw, taliadau a datganiadau darparwyr ar-lein. Rydym hefyd yn gwneud gwaith ehangach i foderneiddio TG a allai arwain at integreiddio â'r systemau meddalwedd a ddefnyddir gan ddarparwyr a thrydydd partion eraill. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer integreiddio â systemau'r Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, GLLTEM ac adrannau eraill er mwyn lleihau amseroedd prosesu i ddarparwyr ymhellach.

## 2.4 Byw o fewn ein modd a rheoli ein risgiau

Er mwyn cyfrannu tuag at y gostyngiad cyffredinol sydd ei angen mewn gwariant ar lefel adrannol, rydym wedi gweithio ar y cyd, ar draws y gwahanol ddisgyblaethau, er mwyn adolygu arbedion effeithlonrwydd yn yr ACC.

Mae'r adolygiadau hyn wedi canolbwyntio ar y canlynol: gweinyddu'r gronfa cymorth cyfreithiol; cwmpas cymorth cyfreithiol; a'r swm a delir ar gyfer cymorth cyfreithiol.

Rheolir adnoddau ariannol yr ACC gan ein cyllideb weinyddu sy'n cael ei defnyddio ar gyfer holl wariant gweinyddol yr ACC. Mae cyllideb y Gronfa Cymorth Cyfreithiol yn ariannu holl wariant y rhaglen cymorth cyfreithiol. Mae'r gyllideb cronfeydd canolog yn ariannu gorchmynion a geir, mewn ychydig amgylchiadau, gan Lys y Goron ar gyfer costau a ddaeth i ran diffynyddion sy'n talu'n breifat am eu cynrychiolaeth gyfreithiol ac sy'n cael eu dyfarnu'n ddieuog.

Nodir ein cyllidebau ar gyfer 13/14 ac 14/15 isod:

	Cyllideb 13/14 (£m)	Cyllideb 14/15 (£m)
<b>Y Gronfa Cymorth Cyfreithiol</b>	1,818.9	1,630.0
<b>Gweinyddu'r ACC</b>	98.3	94.2
<b>Cronfeydd canolog</b>	53.0	55.7

### Gweinyddu Cymorth Cyfreithiol

Mewn termau real rydym yn bwriadu lleihau'r gyllideb weinyddu 28% yn ystod cyfnod yr adolygiad o wariant. Er mwyn gwneud hyn byddwn yn:

- Cynyddu nifer y trafodion ar-lein.
- Dal i sicrhau cymaint ag sy'n bosib o arbedion effeithlonrwydd ac arbedion maint drwy rannu gwasanaethau fel un o Asiantaethau Gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder.
- Adolygu ein ffyrdd o weithio'n barhaus er mwyn iddynt fod mor effeithiol a diwastraff ag sy'n bosib.

Bydd ein hagenda effeithlonrwydd yn canolbwyntio yn y dyfodol ar hybu gwelliant parhaus ac effeithlonrwydd yn y ffordd rydym yn gweinyddu'r gronfa cymorth cyfreithiol. Byddwn hefyd yn dal i ddatblygu ymgyrch i wella'r broses o wneud penderfyniadau masnachol ar draws yr ACC â chynlluniau ar gyfer digwyddiadau ymwybyddiaeth wedi'u targedu drwy gydol y flwyddyn {astudiaeth achos #8}.

### Astudiaeth Achos #8: Codi ein lefelau ymwybyddiaeth fasnachol

Rydym wedi annog ein staff i edrych am arbedion er mwyn cadw o fewn y cyfyngiadau ar ein cyllideb weinyddu drwy weithgareddau fel yr 'her £200' – cynllun sy'n herio pob aelod o'r staff i nodi ffyrdd newydd a symlach o weithio er mwyn cyfrannu £200 y pen, o leiaf, o arbedion. Ategwyd hyn ymhellach drwy gynyddu ymwybyddiaeth fasnachol ar draws yr Asiantaeth. Cynhaliodd ein tîm cyllid "wythnos Ymwybyddiaeth Fasnachol" a oedd yn cynnwys gweithdai (y bu 200 o staff ynddynt) i ystyried sut y gallai pob aelod o'r staff helpu i fynd i'r afael â'r heriau masnachol a wynebir gan yr ACC. Drwy'r gweithgareddau hyn rydym yn cymryd camau cadarnhaol er mwyn gwella'r ffordd rydym yn gweithio a gwneud yr arbedion sydd eu hangen.

### Y Gronfa Cymorth Cyfreithiol

Mae gofalu am arian trethdalwyr yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud, a byddwn yn dal i geisio gwella'r ffordd rydym yn rheoli gwariant ar achosion sy'n cael eu hariannu ag arian cyhoeddus ac yn gwneud taliadau i ddarparwyr cymorth cyfreithiol yn effeithlon ac yn effeithiol.

Yn ogystal â'r diwygiadau presennol, bydd Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol yn arwain at tua £215m o arbedion ychwanegol erbyn 2018/19.

Yn ychwanegol at hyn, diweddarwyd ein strategaeth casglu dyledion yn 2013 ac rydym yn dal i geisio cyflawni tri amcan craidd: (i) atal dyledion yn y lle cyntaf; (ii) creu rhagor o effeithlonrwydd o ran sut rydym yn gweinyddu ac yn casglu dyledion; a (iii) cynyddu'r arian rydym yn ei adennill o ddyledion net. Byddwn yn gweithio mewn cysylltiad agos â chydweithwyr yn Swyddfa'r Cabinet ac yn cydweithio ag Adrannau eraill y Llywodraeth er mwyn cyflawni'r strategaeth hon.

Cyhoeddir crynodeb cynhwysfawr o'n perfformiad ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn haf 2014.

### Rheoli ein risgiau

Mae'r ACC yn gwerthfawrogi pwysigrwydd trefniadau rheoli risg cadarn ac mae ganddi broses gynhwysfawr i nodi, monitro a lliniaru'r risgiau hynny a allai atal yr ACC rhag cyflawni ei hamcanion strategol.

Rheolir risg ar bob lefel yn yr ACC. Ar lefel weithredol, mae Dirprwy Gyfarwyddwyr yn gyfrifol am gofrestrau risg ar gyfer unedau busnes sy'n cael eu hadolygu, eu diweddarau a'u trafod yn chwarterol o leiaf. Defnyddir risgiau blaenoriaeth uchel neu reolaidd ar y lefel hon i ddarparu gwybodaeth ar gyfer Cofrestr Risg Gorfforaethol y Tîm Gweithredol, sy'n gyfrifol am ei hadolygu a'i thrafod bob chwarter.

Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol hefyd yn cael ei hadolygu gan Fwrdd yr ACC ac yn cael ei hymgorffori yng Nghofrestr Risg Strategol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, sy'n rhan o gyfrifoldeb Pwyllgor Gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder.



Cefnogir ymagwedd yr Asiantaeth at reoli risg gan ei Fframwaith Sicrwydd sy'n dilyn arferion gorau Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r fframwaith yn nodi tri amddiffyniad er mwyn sicrhau bod amgylchedd rheoli'r Asiantaeth yn gadarn ac yn gynhwysfawr. Mae'r amddiffyniad cyntaf yn cynnwys trefniadau rheng flaen i reoli risg a sicrhau bod amcanion sefydliadol yn cael eu cyflawni. Mae'r ail yn ymwneud â monitro gweithgareddau sy'n dangos bod y trefniadau rheoli'n cael eu goruchwylio gan reolwyr. Mae'r trydydd amddiffyniad yn nodi'r gweithgareddau hynny sy'n mesur sicrwydd yn annibynnol, o ffynhonnell y tu allan i'r sefydliad megis Archwilio Mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Y risgiau mwyaf sylweddol i'r ACC yn ystod 2014/15 yw:

- Risg o oedi â'r trefniadau gweithio ar-lein ar gyfer ceisiadau a biliau sifil wrth weithredu CCMS. Byddwn yn ceisio lleihau'r risg hon drwy ddal i wrando ar adborth gan ddarparwyr sy'n defnyddio CCMS, monitro'r broses o roi'r system ar waith yn ofalus, datblygu gwelliannau i'r system os oes angen, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd i'r cyrff sy'n cynrychioli'n darparwyr a'n darparwyr peilot.
- Risg na fydd yr atebion technolegol sydd wedi cael eu cynllunio gan yr ACC yn sicrhau'r lefelau uchaf posib o ran effeithlonrwydd gweithredol ac ariannol. Mae gennym raglen TG uchelgeisiol er mwyn digideiddio pob rhan o'n gwasanaeth a newid i weithio ar-lein gyda darparwyr. Rydym eisoes

wedi gweithredu cyfres o reolyddion a fydd yn caniatáu i ni fonitro, mewn amser real, ein cynnydd wrth ddatblygu ein hatebion technolegol; bydd y rhain yn cael eu cynnal.

- Risg na fydd modd cael cefnogaeth gan randdeiliaid i'n diwygiadau cymorth cyfreithiol parhaus. Rydym yn derbyn y bydd gweithredu diwygiadau'n arwain at heriau i'r ACC, yn enwedig o ran cael cefnogaeth gan randdeiliaid ar gyfer pob agwedd. Er mwyn rheoli'r risg hon, rydym wedi datblygu Strategaeth Rheoli Rhanddeiliaid sy'n egluro sut y bydd yr ACC yn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy'r adeg.

Bydd rhagor o fanylion am ein risgiau i'w gweld yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a fydd yn cael ei gyhoeddi fel rhan o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr ACC yn haf 2014.

# Atodiad A: Ein Trefniadau Tryloywder

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddarparu mwy o dryloywder er mwyn galluogi'r cyhoedd i alw gwasanaethau i gyfrif a darparu asesiad o werth am arian

## Y Prif Gyhoeddiadau:

- **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** Yn darparu crynodeb cynhwysfawr o weithgareddau a pherfformiad ariannol yr ACC ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn ogystal ag adrodd am ein perfformiad ar sail y targedau a'r amcanion strategol.
- **Pecyn Gwybodaeth Ystadegol:** Yn darparu crynodebau o nifer a gwerth y gwaith sydd wedi cael ei wneud gan ddarparwyr ym mhob agwedd ar gymorth cyfreithiol.
- **Dangosyddion Mewnbyn – Cymorth Cyfreithiol:** Yn darparu'r costau cyfartalog fesul achos cymorth cyfreithiol ac yn un o'r Dangosyddion Mewnbyn yng Nghynllun Busnes y Weinyddiaeth Cyfiawnder.
- **Adroddiad y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol:** Yn darparu crynodeb o'r gwaith a wnaethpwyd gan y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol, y penderfyniadau a wnaethpwyd a'r prosesau a ddilynwyd er mwyn cynnal annibyniaeth y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â rhoi cymorth cyfreithiol.
- Darparu Bwletin yr ACC a Bwletin yr Eiriolwyr, cylchlythyrau rheolaidd sy'n cysylltu â deunydd yn adran yr ACC ar y wefan Cyfiawnder. Anfonir y rhain drwy ebost at eiriolwyr a darparwyr cymorth cyfreithiol i ddarparu newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd allweddol, e.e. gwahoddiadau i dendro, ymgynghoriadau ac ymatebion, newidiadau i ffurflenni, a dyddiadau biliau a thaliadau.
- Cyfarfod grwpiau cynrychioladol amrywiol yn rheolaidd a rhannu gwybodaeth am ein perfformiad.
- Trefnu digwyddiadau wyneb yn wyneb ar gyfer darparwyr, bargyfreithwyr, cyfryngwyr ac arbenigwyr i annog deialog adeiladol rhwng rhanddeiliaid a'r ACC ar faterion allweddol, megis diwygio cymorth cyfreithiol a hyfforddiant ar gyfer ein systemau newydd. Cynhelir y digwyddiadau mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru a Lloegr ac maent yn rhoi cyfle i uwch reolwyr egluro beth rydym yn ei wneud a thrafod pryderon ehangach. Mae miloedd o ymarferwyr wedi bod yn y digwyddiadau hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Aelodaeth o Fyrddau Cyfiawnder Troseddol a Theuluol, a mynd i'w cyfarfodydd.

Mae copïau o gyhoeddiadau strategol yr ACC i'w gweld yn: <https://www.justice.gov.uk/publications/corporate-reports/legal-aid-agency>

Mae'r cyhoeddiadau i gyd ar gael yn Gymraeg.

Yn ogystal ag ymrwymiad i gyhoeddi data, bydd yr ACC yn dal i ymrwymo i ddeialog agored ac adeiladol er mwyn ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol cyfreithiol drwy ein sianeli cyfathrebu. Mae rhai o'r prif sianeli a ddefnyddir gan yr ACC yn cynnwys:

# Atodiad B: Llywodraethu

## Mae prif elfennau trefniadau Llywodraethu'r ACC yn cael eu crynhoi isod.

Bydd Bwrdd yr ACC yn llywodraethu'r Asiantaeth yn gyffredinol. Caiff ei gadeirio gan Brif Weithredwr yr ACC a bydd yn rhoi cymorth, cyngor ac arweiniad i'r Prif Weithredwr ar gyfeiriad strategol yr Asiantaeth. Er mai'r Tîm Gweithredol fydd yn gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd, bydd y Bwrdd yn cael adroddiadau ac yn gwneud penderfyniadau am flaenoriaethau busnes allweddol fel sy'n briodol.

Yn ogystal â rheoli o ddydd i ddydd, mae'r Tîm Gweithredol hefyd yn cyfarfod bob chwarter fel Bwrdd Newid yr ACC sy'n goruchwyllo'n holl raglenni newid ac yn ategu gwaith Byrddau Rhaglenni unigol.

Mae gan yr ACC dri Aelod Bwrdd Anweithredol a gafodd eu recriwtio drwy ymgyrch allanol. Mae Aelodau Bwrdd Anweithredol yn ymdrin â meysydd arbenigol cyllid/archwilio, materion cyfreithiol a masnachol yn ogystal â goruchwyllo agweddau strategol y Bwrdd. Maent yn atebol i'r Prif Weithredwr am eu hymddygiad fel aelodau o'r Bwrdd. Rôl yr Aelodau Bwrdd Anweithredol yw darparu her effeithiol a gwrthrychol i weddill aelodau'r Bwrdd a'r swyddogion fel sy'n briodol. Cefnogir Bwrdd yr ACC gan Bwyllgor Archwilio'r ACC sy'n cynnwys ein tri Aelod Bwrdd Anweithredol. Mae un ohonynt yn gweithredu fel cadeirydd.

Mae Aelodaeth Bwrdd yr ACC yn cynnwys:

- Prif Weithredwr yr ACC (Cadeirydd)
- Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad yr ACC (a fydd yn Cadeirio yn absenoldeb y Prif Weithredwr)
- Cyfarwyddwr Comisiynu a Strategaeth yr ACC
- Cyfarwyddwr Rheoli Achosion yr ACC
- Prif Gyngorwr Cyfreithiol yr ACC
- Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder
- Aelod Bwrdd Anweithredol, Cyfreithiol
- Aelod Bwrdd Anweithredol, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
- Aelod Bwrdd Anweithredol, Masnachol

Bydd y bobl ganlynol hefyd yn cael gwahoddiadau sefydlog i fynychu'r Bwrdd:

- Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yr ACC
- Cyfarwyddwr Polisi Cymorth Cyfreithiol y Weinyddiaeth Cyfiawnder
- Pennaeth Canolfan Gorfforaethol yr ACC

Os bydd swydd y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol yn cael ei dal yn y dyfodol gan rywun ar wahân i Brif Weithredwr yr ACC, yna bydd y Cyfarwyddwr hwn hefyd yn aelod o'r Bwrdd.

Penodir y Prif Weithredwr gan Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Cyfiawnder drwy drefniadau cymeradwyo safonol yr Uwch Wasanaeth Sifil. Mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu Cymorth Cyfreithiol yn atebol, drwy'r Ysgrifennydd Parhaol, i'r Senedd am sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu defnyddio at y dibenion a awdurdodwyd gan y Senedd. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am ateb am briodoldeb a rheoleidd-dra gwariant yr ACC. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, gall y Prif Weithredwr hefyd gael ei benodi'n Gyfarwyddwr Gwaith Achos Cyfreithiol yr ACC, i wneud penderfyniadau (yn annibynnol ar y Weinyddiaeth Cyfiawnder) am geisiadau cymorth cyfreithiol unigol. Bydd y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cyfreithiol yn cael ei ddynodi gan yr Arglwydd Ganghellor dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012. Bydd y Cyfarwyddwr yn cael y cyngor a'r cymorth angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswydd i wneud penderfyniadau annibynnol am ganiatáu cymorth cyfreithiol i geisiadau cymorth cyfreithiol unigol. Nodir hyn yn fanylach yn nogfen Cytundeb Fframwaith yr ACC.

Bydd cymeradwyaethau a dirprwyaethau'r ACC yn cael eu gwneud yn unol ag awdurdodau cymeradwyo a dirprwyo safonol y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

## Dogfen Fframwaith

Mae'r ACC yn gweithredu dan Ddogfen Fframwaith, y cytunwyd arni rhwng yr Asiantaeth a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r Ddogfen Fframwaith ar gael yn <http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/corporate-reports/legal-aid-agency/laa-framework.pdf>

# Atodiad C: Ein Trefniadau yng Nghymru

**Mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn atebol i'r Senedd am ein gweithgareddau a'n perfformiad yng Nghymru a Lloegr.**

Yn ychwanegol at hyn, yng Nghymru, mae gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol gysylltiadau agos â Llywodraeth Cymru, fel y weinyddiaeth ddatganoledig. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n uniongyrchol â grwpiau rhanddeiliaid fel y Byrddau Cyfiawnder Troseddol a Theuluol yng Nghymru, yn ogystal â rhanddeiliaid Cymreig penodol fel CAB Cymru, CAF/CASS Cymru a Shelter Cymru.

Mae rhan sylweddol o weithrediadau'r Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus wedi'u lleoli ar hyn o bryd yn Abertawe a Phontypridd. Dan delerau Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol, disgwylir y bydd hyn yn cynyddu eto gan y bydd y Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus yn cael un o'r naw contract ar gyfer ardal De Cymru, a fydd yn golygu presenoldeb ffurfiol a mwy yng Nghaerdydd o Fehefin 2015 ymlaen.

Fel rhan o strategaeth ehangach yr Asiantaeth ar gyfer y Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus, bwriedir datblygu gallu eiriolaeth y Gwasanaeth yn ardal De Cymru hefyd. Mae hyn wedi dechrau drwy benodi Pennaeth Eiriolaeth y Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus, wedi'i lleoli yng Nghaerdydd.

